



Fframwaith
Rheoleiddio
Arbennig
Estymedig:
Cymhwysterau
Galwedig aethol
Ammodau a
Gofynion



HYDREF 2020

Cyfeiriwch at yr Hysbysiad o dan Amod Ext VQCov1.1 (b)

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Amod ExtVQCov1 Cymhwysiad, Dehongliad a diffiniadau	4
Amod ExtVQCov2 Adolygu ac Addasu VQs yn 2020/2021	6
Amod ExtVQCov3 Cadw cofnod o wneud penderfyniadau	7
Amod ExtVQCov4 Gwybodaeth i'w darparu i Ganolfannau.....	8
Amod ExtVQCov5 Hysbysiadau Cyngor Technegol.....	9
Gofynion mewn perthynas ag Addasu VQs	10
Egwyddorion i'w cymhwyso.....	12

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n nodi ein gofynion rheoleiddiol ar gyfer cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau galwedigaethol yn dilyn haf 2020.

Ar 3 Mehefin 2020, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru'r 'Fframwaith Rheoleiddio Arbennig: Cymwysterau Galwedigaethol, Amodau a Gofynion COVID-19' ("y FfRhA / ERF"). Sefydlodd y FfRhA/ERF fframwaith i hwyluso'r broses o gyhoeddi canlyniadau yn haf 2020 i Ddysgwyr oedd yn cymryd cymwysterau galwedigaethol mewn amgylchiadau lle roedd pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi tarfu ar asesiadau arferol. Mae'r fframwaith hwn yn dilyn ymlaen o'r FfRhA/ERF trwy ganiatáu i gyrff dyfarnu addasu eu cymwysterau yn 2020 a 2021 i gydnabod y ffaith, er y gallai asesiadau gael eu cynnal ar ôl haf 2020, y gallai dysgwyr fod wedi profi aflonyddwch i addysgu, dysgu ac asesu oherwydd y pandemig.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r Amodau Covid-19 Estynedig ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol. Daw'r Amodau hyn i rym ar 12 Hydref 2020 ar gyfer pob cymhwyster galwedigaethol fel y'i diffinnir yn Amod ExtVQCov1.8.

Mae hefyd yn nodi ein gofynion mewn perthynas â'r canlynol -

- Addasu cymwysterau galwedigaethol;
- yr egwyddorion i'w defnyddio gan gyrff dyfarnu wrth Addasu cymwysterau galwedigaethol.

Mewn perthynas â'r holl gymwysterau galwedigaethol y mae'r Amodau a nodir yn y ddogfen hon yn gymwys iddynt, ac eithrio i'r graddau a nodir yn yr Amodau hynny, rhaid i gyrff dyfarnu gydymffurfio hefyd â:

- ein Hamodau Cydnabod Safonol¹ sy'n berthnasol i bob corff dyfarnu a chymhwyster, a'r
- holl Ddogfennau Rheoleiddio perthnasol².

Mae'r ddogfen hon ar gael yn [Saesneg](#).

¹ <https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/>

² <https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/rhestr-o-ddogfennau-rheoleiddio/>

Amod ExtVQCov1 Cymhwysiad, Dehongliad a diffiniadau

Cymhwysiad

- ExtVQCov1.1** Mae'r Amodau ExtVQCov yn berthnasol -
- (a) i bob VQ, ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae'r VQCov 2 - 9 a VQCov10.2 yn berthnasol, a
 - (b) tan unrhyw ddyddiad a bennir yn, neu y penderfynir arno o dan, unrhyw hysbysiad ysgrifenedig a gyhoeddir gan Gymwysterau Cymru o dan yr Amod hwn.
- ExtVQCov1.2** Gall unrhyw hysbysiad o'r fath a gyhoeddir gan Gymwysterau Cymru -
- (a) gael ei roi mewn perthynas ag un neu fwy o -
 - (i) VQs, neu
 - (ii) Amodau ExtVQCov,
 - (b) gael ei amrywio neu ei dynnu'n ôl gan Gymwysterau Cymru ar unrhyw adeg cyn y dyddiad a bennir ynddo neu y penderfynir arno, a
 - (c) chynnwys unrhyw ddarpariaethau trosiannol ac arbed y mae Gymwysterau Cymru yn eu hystyried yn briodol.
- ExtVQCov1.3** Rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â gofynion unrhyw ddarpariaethau trosiannol ac arbed sydd wedi'u cynnwys mewn hysbysiad a gyhoeddir gan Gymwysterau Cymru o dan Amod ExtVQCov1.2.
- ExtVQCov1.4** Oni bai bod darpariaeth arall wedi'i gwneud yn Amod ExtVQCov1.8, bydd y canlynol yn berthnasol i Amodau ExtVQCov -
- (a) y rheolau dehongli a'r diffiniadau a amlinellir yn Amod Safonol J1;
 - (b) y diffiniadau a amlinellir yn yr Amodau Lefel Cymhwyster.
- ExtVQCov1.5** Ac eithrio o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn Amod ExtVQCov1.6, mae'r gofynion a osodir gan Amodau ExtVQCov yn berthnasol yn ychwanegol at y gofynion a osodir gan yr Amodau Cydnabod Safonol ac unrhyw Amodau Lefel Cymhwyster perthnasol.
- ExtVQCov1.6** I'r graddau bod unrhyw anghysondeb rhwng -
- (a) un o ofynion Amod ExtVQCov, ac
 - (b) un o ofynion Amod Cydnabod Safonol neu Amod Lefel Cymhwyster,

fel na allai corff dyfarnu gydymffurfio â'r ddau ofyniad o'r fath, rhaid i'r corff dyfarnu gydymffurfio â gofyniad Amod ExtVQCov ac nid oes rheidrwydd arno i gydymffurfio â gofyniad yr Amod arall.

ExtVQCov1.7 Oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu fel arall, yn Amodau ExtVQCov mae cyfeiriadau at 'ganlyniad' yn golygu canlyniad i uned neu'r VQ, fel sy'n berthnasol.

ExtVQCov1.8 Yn yr Amodau hyn bydd i'r geiriau canlynol yr ystyr a roddir iddynt isod (a dylid dehongli ymadroddion cytras yn unol â hynny) -

Addasiadau

Unrhyw newidiadau a wneir gan gorff dyfarnu i VQ y mae'n sicrhau sydd ar gael, gan gynnwys newidiadau i ddyluniad, lleoliad, cyflwyno neu farcio asesiad.

Ymgeisydd Preifat

Dysgwr nad oes Canolfan Berthnasol iddo.

Amod Lefel Cymhwyster

Unrhyw Amod Lefel Cymhwyster sy'n berthnasol i VQ.

Canolfan Berthnasol

Mewn perthynas â Dysgwr, Canolfan -

- (a) y mae'r Dysgwr wedi'i gofrestru â hi, ac
- (b) a gyfrannodd yn sylweddol at baratoi'r Dysgwr ar gyfer yr asesiad (p'un ai trwy addysgu neu gyfarwyddyd a ddarperir gan Athrawon a gyflogir ganddi neu fel arall).

Hysbysiad Cyngor Technegol

Cyngor a ddarperir gan Gymwysterau Cymru i gorff dyfarnu yn ysgrifenedig mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n berthnasol i Amodau ExtVQCov.

VQ

Cymhwyster nad yw'n un o'r canlynol -

- (a) cymhwyster TGAU;
- (b) cymhwyster TAG,
- (c) cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, neu
- (d) gymhwyster 'EPA'.

Amod ExtVQCov2 Adolygu ac Addasu VQs yn 2020/2021

- ExtVQCov2.1** Mewn perthynas â phob VQ y mae'n ei ddarparu, rhaid i gorff dyfarnu -
- (a) ystyried a yw'n briodol Addasu'r cymhwyster ar gyfer Dysgwyr sy'n ei gymryd yn 2020 a / neu 2021 er mwyn lliniaru unrhyw aflonyddwch a achosir gan bandemig Covid-19 i addysgu, dysgu a darparu asesiadau mewn perthynas â'r cymhwyster i'r Dysgwyr hynny, a
 - (b) pan fydd o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny ar y sail honno, gall Addasu'r cymhwyster.
- ExtVQCov2.2** Pan fydd corff dyfarnu yn Addasu VQ o dan Amod ExtVQCov2.1 (b), rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i wneud hynny -
- (a) yn unol ag unrhyw ofynion, a
 - (b) gan ystyried unrhyw ganllawiau,
- a all gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a'u diwygio o bryd i'w gilydd.
- ExtVQCov2.3** Pan fydd corff dyfarnu yn Addasu VQ o dan Amod ExtVQCov2.1(b), rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r egwyddorion a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru ac a gaiff eu diwygio o bryd i'w gilydd.
- ExtVQCov2.4** Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod unrhyw Addasiadau y mae'n eu gwneud i VQ o dan Amod ExtVQCov2.1(b), yn ddigon tryloyw i -
- (a) gadw hyder y cyhoedd yn y cymhwyster, a
 - (b) diwallu anghenion rhesymol Defnyddwyr y cymhwyster.

Amod ExtVQCov3 Cadw cofnod o wneud penderfyniadau

ExtVQCov3.1

Mewn perthynas â VQ y mae'n ei ddarparu, rhaid i gorff dyfarnu -

(a) gadw cofnod, fel sy'n berthnasol, o'r -

- (i) adolygiad a gynhaliwyd o dan Amod ExtVQCov2.1(a) a'i benderfyniad ynghylch a yw'n briodol Addasu'r cymhwyster o dan Amod ExtVQCov2.1(b),
- (ii) penderfyniadau y mae wedi'u gwneud wrth Addasu'r cymhwyster yn unol â'r gofynion, a chan ystyried y canllawiau, a gyhoeddwyd o dan Amod ExtVQCov2.2,
- (iii) sut mae wedi cydymffurfio ag Amod ExtVQCov2.3,
- (iv) y rhesymeg dros y penderfyniadau y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (i) - (iii) yr Amod hwn, ac
- (v) unrhyw wybodaeth arall a bennir mewn unrhyw ofynion a allai gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a'u diwygio o bryd i'w gilydd, a

(b) chadw'r cofnod hwnnw ar ffurf a bennir mewn unrhyw ofynion a allai gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a'u diwygio o bryd i'w gilydd, a

(c) darparu'r cofnod hwnnw i Cymwysterau Cymru pan ofynnir amdano.

Amod ExtVQCov4 Gwybodaeth i'w darparu i Ganolfannau

- ExtVQCov4.1** Rhaid i gorff dyfarnu ddarparu canllawiau effeithiol i Ganolfan y gallai'r Ganolfan ofyn amdanynt yn rhesymol mewn perthynas ag asesiad wedi'i Addasu ar gyfer VQ y mae'r corff dyfarnu yn ei ddarparu.
- ExtVQCov4.2** Mewn perthynas â VQ y mae wedi gwneud Addasiadau iddo o dan Amod ExtVQCov2.2(b), rhaid i gorff dyfarnu sefydlu, cynnal a chydymffurfio â threfniadau -
- (a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i fanylion yr Addasiadau hynny gael eu darparu pan ofynnir amdanynt i -
 - (i) Ganolfan Berthnasol (ar ran Ddysgwr), ac
 - (ii) Ymgeisydd Preifat, ac
 - (b) y gall ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth honno gael ei darparu pan ofynnir amdani i Ddysgwr nad yw'n Ymgeisydd Preifat.
- ExtVQCov4.3** Rhaid i'r trefniadau -
- (a) ddarparu digon o wybodaeth, a
 - (b) chaniatáu amser rhesymol,
- i Ddysgwyr a Chanolfannau ystyried a ddylid gofyn am apêl o dan Amod Safonol I1.
- ExtVQCov4.4** Gallai'r trefniadau -
- (a) nodi mai dim ond ar dalu ffi y bydd y corff dyfarnu yn darparu'r wybodaeth berthnasol,
 - (b) nodi gofynion rhesymol eraill ar gyfer gwneud cais am y wybodaeth, a
 - (c) nodi cyfnod y mae'n rhaid gofyn am y wybodaeth o'i fewn.

Amod ExtVQCov5 Hysbysiadau Cyngor Technegol

ExtVQCov5.1

Rhaid i gorff dyfarnu -

- (a) roi sylw i unrhyw Hysbysiad Cyngor Technegol a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru i'r corff dyfarnu, a
- (b) hysbysu Cymwysterau Cymru sut y mae wedi cydymffurfio ag Amod ExtVQCov5.1(a) o fewn yr amserlen a bennir yn yr Hysbysiad Cyngor Technegol hwnnw.

Gofynion mewn perthynas ag Addasu VQs

Mae Amod ExtVQCov2.2 yn caniatáu inni nodi gofynion a chanllawiau mewn perthynas ag Addasu VQs a gymerir gan Ddysgwyr yn 2020 a /neu 2021.

Rydym yn nodi ein gofynion mewn perthynas ag Addasu VQs.

Gofynion cyffredinol mewn perthynas ag Addasiadau

Mae yna nifer o ffyrdd y gall corff dyfarnu wneud newidiadau i VQ y mae'n ei ddarparu er mwyn lliniaru unrhyw aflonyddwch a achosir gan y pandemig coronafeirws (COVID-19) i addysgu, dysgu ac asesu ar gyfer Ddysgwyr sy'n cymryd y cymhwyster yn 2020 a /neu 2021. Mae'r rhain yn cynnwys

- (a) sicrhau bod mwy o amser addysgu a dysgu ar gael, er enghraifft trwy ystyried amodau amgen y gallai asesiadau gael eu cynnal oddi tanynt fel nad oes angen iddynt oll gael eu goruchwyllo'n uniongyrchol, neu drwy symleiddio asesiadau;
- (b) newid y ffordd y mae asesiadau'n cael eu cyflwyno, er enghraifft trwy ddefnyddio prawf ar-lein yn hytrach na phrawf papur, neu gynnal asesiad o bell yn hytrach nag wyneb yn wyneb;
- (c) addasu dulliau asesu i ystyried canllawiau pellhau cymdeithasol a chanllawiau iechyd cyhoeddus, er enghraifft trwy ddefnyddio efelychiad ymarferol yn lle arsylwad, neu drafodaeth broffesiynol yn lle arddangosiad ymarferol;
- (d) newid gofynion Goruchwyllo, er enghraifft trwy ganiatáu defnyddio Goruchwyllo ar-lein fel y gellir cynnal asesiadau mewn ystod ehangach o leoliadau;
- (e) hepgor neu addasu gofynion profiad gwaith neu leoliadau, er enghraifft caniatáu i Ddysgwyr ymgymryd â chyfnod byrrach o brofiad gwaith, neu
- (f) newid y ffordd y mae'r gwaith o sicrhau ansawdd cymhwyster yn cael ei wneud, er enghraifft trwy ganiatáu i safoni neu Graffu ar Safonau Asesu Canolfannau ddigwydd o bell neu ar-lein.

Ym mhob achos, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod unrhyw Addasiadau y mae'n eu gwneud i VQ yn unol â'r egwyddorion a nodir o dan Amod ExtVQCov2.3.

Yn benodol, rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i leihau risgiau i Ddilysrwydd trwy sicrhau bod sylw i feysydd allweddol llunio'r cymhwyster yn cael ei gadw mewn unrhyw asesiad wedi'i Addasu.

Rhaid i gorff dyfarnu weithredu o fewn terfynau ei allu a'i gymhwysedd yn unig.

Ystyriaethau cydraddoldeb

Ymhob achos, rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â gofynion Amodau Safonol D2 (Hygyrchedd cymwysterau) a G6 (Trefniadau ar gyfer Addasiadau Rhesymol).

Yn yr un modd, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod yn Lleihau Tuedd, cyn belled ag y bo modd, wrth wneud unrhyw Addasiadau i VQ y mae'n ei ddarparu.

Cymwysterau proffesiynol a thrwyddedau i ymarfer

Pan fo VQ y mae'n ei ddarparu yn gweithredu fel trwydded i ymarfer, neu'n cael ei ddefnyddio i roi mynediad i broffesiwn penodol, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod yn taro cydbwysedd priodol rhwng –

- (a) cynnal Dilysrwydd y cymhwyster er mwyn cyflawni ei amcan, a
- (b) gwneud Addasiadau i asesiadau er mwyn darparu'r mesurau lliniaru a amlinellir yn Amod ExtVQCov2.1(a).

Mewn perthynas â chymwysterau o'r fath, dylai corff dyfarnu roi mwy o bwyslais ar gynnal Dilysrwydd y cymhwyster, hyd yn oed pan fydd hyn yn golygu nad yw'n bosibl gwneud Addasiadau iddo.

Rydym yn cydnabod, yn dibynnu ar amcan y cymhwyster a'r ffyrdd y caiff ei ddefnyddio, y gallai fod gan gyrff rheoleiddio a goruchwylio proffesiynol y sector farn o bosibl ar Addasiadau a ganiateir neu ddulliau eraill y gellir eu cymryd. Gallant hefyd chwarae rôl wrth sicrhau dulliau cyson ar draws cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau tebyg, neu sydd ag amcan tebyg.

Wrth ystyried unrhyw Addasiadau i VQ y mae'n eu darparu, rhaid i gorff dyfarnu ystyried unrhyw ofynion neu ganllawiau penodol a gyhoeddir gan unrhyw gorff proffesiynol neu gorff sector perthnasol.

Rhaid i gorff dyfarnu beidio â cheisio dilyn y gofynion a'r canllawiau a gyhoeddir gan gorff o'r fath lle byddai gwneud hynny'n mynd yn groes i'r egwyddorion a nodir o dan Amod ExtVQCov2.3.

Egwyddorion i'w cymhwyso

Mae Amod ExtVQCov2.3 yn caniatáu inni nodi egwyddorion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â hwy wrth Addasu asesiadau ar gyfer VQs.

Rydym yn nodi'r egwyddorion at ddibenion Amod ExtVQCov2.3 isod.

Yr egwyddorion

Egwyddor 1 – Cyn belled ag y bo modd a heb ragfarnu'r egwyddorion eraill, rhaid i gorff dyfarnu geisio sicrhau bod yr Addasiadau y mae'n eu gwneud i gymhwyster yn cynorthwyo i liniaru'r effaith ar addysgu, dysgu neu asesiadau a achosir gan bandemig Covid-19 ar Ddysgwyr sy'n cymryd y cymhwyster hwnnw.

Egwyddor 2 - Rhaid i gorff dyfarnu geisio sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad yw'r Addasiadau y mae'n eu gwneud i gymhwyster yn rhoi mantais nac anfantais i Ddysgwyr sy'n cymryd y cymhwyster hwnnw yn erbyn eu cyfoedion sy'n cymryd cymwysterau cyffredinol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Fframwaith ExtVQCov.

Egwyddor 3 - Rhaid i gorff dyfarnu geisio sicrhau, pan fydd yn gwneud unrhyw Addasiadau i'w gymwysterau yn unol ag Amodau ExtVQCov, bod Dilysrwydd a Dibynadwyedd y cymwysterau hynny yn cael eu cynnal.

Egwyddor 4 - Rhaid i gorff dyfarnu geisio cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, o fewn yr un cymhwyster yn unol â blynyddoedd blaenorol, ac ar draws cymwysterau tebyg sydd ar gael gan y corff dyfarnu a chan gyrff dyfarnu eraill.